

Canllaw i gyfranogwyr: Belief System gan Theatr Ranters

Gosodwaith trochol yw BELIEF SYSTEM a wnaed â channoedd o recordiadau llais o gredoau pobl, a gasglwyd gan drigolion ledled Caerdydd. Bydd y prosiect, a grëwyd gan Theatr Ranters Awstralia, yn cael ei gyflwyno yn Chapter yn haf 2023.

Hoffem i gymaint o bobl â phosib gyfrannu, mewn cymaint o ieithoedd â phosib, fel bod y recordiadau'n cynrychioli'r bobl y mae eu credoau yn siapio ein dinas. Bydd y cannoedd o gredoau'n cael eu cymysgu fel clytwaith dienw.

Dylech recordio 6-8 cred o'r pedwar categori isod.

Un yr un ar gyfer y tri chategorï cyntaf, a thri ar gyfer y categorï **Personol**.

1. Athronyddol – credoau sydd gennych am ysbrydolrwydd, crefydd ac ati.

Eng 1. Rwy'n credu mewn duw ond dydw i ddim yn gwybod sut mae'n gweithio.

Eng 2. Rwy'n credu pan fyddwn ni'n marw, ein bod ni'n dod yn rhan o'r aer rydyn ni'n ei anadlu.

2. Cymdeithasol – credoau sydd gennych am sefydliadau, yr amgylchedd, pobl, a'r byd o'ch cwmpas

Eng 1. Rwy'n credu mewn sefydliadau cyhyd â bod protest.

Eng 2. Rwy'n credu bod problemau'r byd yn rhy anodd i wleidyddion heddiw.

3. Y Dyfodol – credoau sydd gennych am y dyfodol

Eng 1. Rwy'n credu y byddwn ni'n cysylltu ag estroniaid yn y dyfodol.

Eng 2. Rwy'n credu y bydd y dyfodol yn dywyll ac yna'n olau.

4. Personol – credoau amdanoch chi a'ch profiad o fywyd bob dydd; pethau sy'n anodd ar adegau, eich arferion, eich perthynas â'ch gwrthrychau.

Eng 1. Rwy'n credu bod fy llygaid yn las er bod pawb yn dweud wrtha i eu bod nhw'n wyrdd.

Eng 2. Rwy'n credu fy mod i'n teimlo cywilydd yn rhy hawdd.

Eg 3. Rwy'n credu mewn trefnu sanau yn ôl eu lliwiau.

Cyfarwyddiadau a chynghor ar recordio

- Cymerwch amser i **feddwl am eich credoau**. **Ysgrifennwch nhw i lawr** cyn i chi recordio.
- Byddwch **mor bersonol ag y gallwch**.
- Dylai pob cred fod yn **frawddeg o hyd**.
- Rhestrwch y **gred yn unig** ac nid y rhesymau pam rydych chi'n ei chredu.
- Recordiwch i'ch ffôn. **Recordiad llais yn unig** – nid fideo.
- **Dewch o hyd i rywle tawel** dan do i recordio.
- Recordiwch bob cred fel recordiad ar wahân. **8 cred = 8 recordiad ar wahân**.

Diolch am gymryd rhan yn y prosiect yma!